

Proffil Rôl Staff: Rheolwr Siop Cynorthwyol

Lefel Swydd	2b	Yn atebol i	Rheolwr y Siop
Contract		Cyfarwyddiaeth	Codi arian

Hyd a lled y rôl

Is-weithwyr uniongyrchol	Dim	Is-weithwyr anuniongyrchol	1-3 aelod o staff yn dibynnu ar faint y siop
Cyfrifoldeb / atebolrwydd cyllidebol	Dim	Atebolrwydd dros adnoddau eraill	Dim
Cyrhaeddiad ac effaith	Cefnogi rheolwr y siop i ddarparu tîm yn y siop sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, sy'n 'ffenstr y Groes Goch' ar y stryd fawr. Cynnal enw da'r mudiad a manteisio ar gyfleoedd masnachu lleol er mwyn cyfrannu cymaint ag y bo modd at y siopau, boed hynny drwy roddion stoc, oriau gwirfoddolwyr neu roddion ariannol. Sicrhau y gwneir y mwyaf o gyfraniad net y siop trwy reoli costau a rheoli staff a gwirfoddolwyr yn effeithiol.		

Cyd-destun

Mae'r Groes Goch Brydeinig yn helpu miliynau o bobl yn y DU ac ym mhob cwr o'r byd i baratoi ar gyfer argyfyngau, trychinebau a gwrthdaro, ac ymateb iddynt.

Mae ein gwirfoddolwyr a'n staff yn helpu pobl mewn argyfwng i fyw'n annibynnol drwy ddarparu cefnogaeth yn y cartref, cymorth i symud a chludiant. Rydym hefyd yn dysgu sgiliau cymorth cyntaf.

Rydym yn rhan o rwydwaith dyngarol byd-eang y Groes Goch a'r Cilgant Coch. Rydym yn gwrthod anwybyddu pobl mewn argyfwng.

Ein hegwyddorion a'n gwerthoedd

Mae **ein gwerthoedd** (trugarog, dewr, cynhwysol a deinamig) yn sail i bopeth a wnawn. Fel aelod o'r Groes Goch a Mudiad y Cilgant Coch, mae'r Groes Goch Brydeinig wedi ymrwmo i'w **hegwyddorion sylfaenol** ac yn rhwym wrthynt: dyngarwch, didueddrwydd, amhleidioldeb, annibyniaeth, gwasanaeth gwirfoddol, undod a chynhwysoldeb.

Trosolwg o'r Gyfarwyddiaeth

Mae rôl Rheolwr Siop Cynorthwyol yn rhan o'r gyfarwyddiaeth Codi Arian.

Mae'r Adran Manwerthu, sy'n rhan o'r Is-adran Codi Arian, yn rhedeg tua 330 o siopau elusen y Groes Goch ledled y DU ac mae ganddi gyfanswm o dros 6,500 o wirfoddolwyr, 700 o staff cyflogedig a throsiant o dros £28m y flwyddyn.

Pwrpas y swydd

Cynorthwyo Rheolwr y Siop i sicrhau'r incwm net gorau posib o siop y Groes Goch. Cefnogi Rheolwr y Siop i reoli staff, gwirfoddolwyr, stoc, adeiladau a gweinyddiaeth. Cyflawni safonau uchel o ran gofal cwsmeriaid a sicrhau bod delwedd ac enw da'r Groes Goch yn cael eu cynnal. Cymryd cyfrifoldeb dros y siop yn absenoldeb Rheolwr y Siop.

Prif gyfrifoldebau

Pobl

- > Gweithio gyda Rheolwr y Siop i sefydlu, rheoli, hyfforddi a datblygu staff cyflogedig a gwirfoddolwyr yn unol â safonau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol
- > Cynnal enw da'r Groes Goch drwy gynnal safonau personol uchel a dangos agwedd gynnes, werthfawrogol a chroesawgar tuag at gwsmeriaid, rhoddwyr, staff a gwirfoddolwyr
- > Cyfathrebu'n effeithiol â staff a gwirfoddolwyr y siop a staff eraill y Groes Goch, gan raeadru gwybodaeth fel y bo'n berthnasol
- > Darparu gofal o safon uchel i gwsmeriaid.
- > Mynd ati i hyrwyddo'r siop yn y gymuned ac ymateb i ymholiadau lleol am wasanaethau'r Groes Goch Brydeinig

Perfformiad

- > Gweithio gyda Rheolwr y Siop i reoli'r siop o ddydd i ddydd, gan sicrhau y cyrhaeddir targedau, cyllidebau a lefelau elw penodol
- > Cynyddu gwerthiant wythnosol cyfartalog ac elw wythnosol cyfartalog y siop ar y cyd â Rheolwr y Siop
- > Rheoli'r siop yn effeithiol yn absenoldeb Rheolwr y Siop a darparu gwasanaeth llanw i siopau eraill pan fo angen

Cynnyrch

- > Cefnogi'r gwaith o gynhyrchu stoc ar gyfer y siop

- > Gweithio gyda Rheolwr y Siop i reoli eitemau stoc sydd wedi'u derbyn yn rhodd yn effeithiol a nwyddau a brynir i mewn, gan sicrhau bod y safonau angenrheidiol sy'n ymwneud ag ansawdd, nifer, cylchdroi stoc a rheoli'r ystafell stoc yn cael eu cynnal
- > Prisio nwyddau'n briodol yn y siop
- > Sicrhau safon uchel o ran cadw tŷ, arddangos, nwyddau a rheoli llawr y siop, gan gadw at ganllawiau iechyd a diogelwch a safonau cenedlaethol
- > Cynnal ymwybyddiaeth o flaenoriaethau'r mudiad a helpu i hyrwyddo gwaith y Groes Goch i wirfoddolwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Eiddo

- > Yn absenoldeb Rheolwr y Siop, rhoi gwybod i'r timau priodol am yr holl faterion sy'n ymwneud â'r adeilad, iechyd a diogelwch ac offer y siop, a hynny'n brydlon.

Diogelu Cymru

- > Cydymffurfio â chyfarwyddiadau, polisiau, gweithdrefnau, canllawiau a deddfwriaethau cenedlaethol bob amser
- > Sicrhau bod arian a stoc yn cael eu trin yn ddiogel bob amser
- > Mynychu cyfarfodydd a chyrsiau/digwyddiadau hyfforddi pan fydd Rheolwr y Siop a/neu'r Rheolwr Ardal Manwerthu yn gofyn i chi wneud hynny.
- > Yn absenoldeb Rheolwr y Siop, rheoli holl weithdrefnau gweinyddol ac adroddiadau gwerthiant til y siop (EPoS) yn gywir, fel y nodir gan y Rheolwr Ardal Manwerthu
- > Rhoi gwybod i'r Rheolwr Maes Manwerthu am unrhyw anawsterau sy'n codi yn ystod absenoldeb Rheolwr y Siop.
- > Bod yn ymwybodol o waith, nodau ac amcanion y Groes Goch Brydeinig ar lefel ryngwladol, genedlaethol, rhanbarthol a lleol

Archwiliad Cofnodion Troseddol

Y mathau o archwiliad cofnodion troseddol sydd eu hangen ar gyfer y swydd hon

Cymru a Lloegr - Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
> Dim
Yr Alban
> Dim
Gogledd Iwerddon
> Dim

Amrywiaeth

Yn y Groes Goch Brydeinig, rydym yn chwilio am y bobl orau i'n helpu ni i ddarparu cymorth i filiynau o bobl yn y DU y mae argyfwng wedi effeithio arnynt. Rydym am weld ein tîm yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, ac rydym yn cynnig cyfle cyfartal i bawb beth bynnag fo'u statws o ran oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Rydym yn dathlu amrywiaeth ac rydym am i chi allu bod yn chi eich hun yn y Groes Goch. Rydym am i chi deimlo eich bod mewn amgylchedd cynhwysol, a sefyllfa wych i'n helpu ni i ledaenu pŵer caredigrwydd.

Gallwch ddarllen mwy am ein hymrwymiad i amrywiaeth [ar ein gwefan](#).

Manyleb y person

		Gofyniad	Tystiolaeth a gafwyd drwy Restr fer (R) Cyfweiliad (C) neu Asesiad (A)
Gwybodaeth	Hanfodol ✓✓	<ul style="list-style-type: none"> • Deall gwybodaeth ariannol a rhifol, a phwysigrwydd cyrraedd targedau. • Gallu dehongli a gweithredu gweithdrefnau ac arferion gweithio (er enghraifft, mewn perthynas â phrosesau gweithredol). 	
	Dymunol	<ul style="list-style-type: none"> • Gallu deall materion sy'n ymwneud â gweithio gyda gwirfoddolwyr 	
Sgiliau	Hanfodol ✓✓	<ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau gofal cwsmeriaid amlwg • Sgiliau TG amlwg 	
Profiad	Hanfodol ✓✓	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o drin a chysoni arian parod 	
	Dymunol	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o weithio mewn amgylchedd manwerthu • Profiad o ddefnyddio blaengaredd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol 	
Ymddygiadau		<ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebu a dylanwadu – teilwra ei ddull gweithredu. • Arwain ac ymgysylltu – cefnogi'r tîm. • Croesawu ac arwain newid – cadarnhaol ynghylch newid. • Atebolrwydd dros adnoddau – deall yr amgylchedd ehangach a defnyddio gwybodaeth i gyflawni. • Rheoli effaith bersonol – hunanymwybodol. • Datblygu ei hun ac eraill – datblygu ei allu ei hun. 	
Gofynion ychwanegol	Hanfodol ✓✓	<ul style="list-style-type: none"> - Glynw wrth yr egwyddorion sylfaenol a gweithredu'n egwyddorol ac yn unol â gwerthoedd y Gymdeithas (cynhwysol, trugarog, dewr a deinamig). - Sicrhau arferion cynhwysol a hyrwyddo amrywiaeth - Gallu gweithio ar benwythnosau ac ar wyliau cyhoeddus - Gallu teithio i siopau eraill ar gyfer gwasanaeth llanw a mynychu hyfforddiant yn ôl y gofyn - Gallu codi a chario bagiau a bocsys yn llawn eitemau stoc sydd wedi'u derbyn yn rhodd, gan gynnwys dillad a llyfrau, a dodrefn ysgafn/trwm (yn dibynnu ar y siop) (mae hwn yn ofyniad galwedigaethol gwirioneddol ar gyfer y rôl) 	
	Dymunol	Gallu gweithio oriau ychwanegol yn ôl yr angen	

Er mwyn cael eich rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad, mae angen i chi fodloni'r meini prawf hanfodol fel yr amlinellir uchod. DS Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol (✓✓) yn cael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad, yn unol â'n hymrwymiad i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd